PWYLLGOR YMGYNGHOROL RHIANTA CORFFORAETHOL

DYDD LLUN, 9 IONAWR 2023

Present: Councillor Merry (Chairperson)
Councillors Ash-Edwards, Kaaba, Lay, Lewis, Lister, Littlechild, Molik a/ac Naughton

1 : PENODI CADEIRYDD A PHWYLLGOR

Nododd y Pwyllgor fod y Cyngor, yn ei Gyfarfod Blynyddol ar 27 Mai 2021, wedi penodi'r Cynghorydd Sarah Merry yn Gadeirydd a'r Aelodau canlynol i'r Pwyllgor ar gyfer blwyddyn 2022/2023 y Cyngor:

Y Cynghorwyr Ferguson-Thorne, Kaaba, Lay, Littlechild, Lister, Molik, Naughton a Proctor.

Penodwyd y Cynghorydd Margaret Lewis gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 30 Mehefin 2022.

2 : CYLCH GORCHWYL

Nododd y Pwyllgor fod y Cyngor, yn ei Gyfarfod Blynyddol ar 26 Mai 2022 wedi cytuno ar Gylch Gorchwyl y Pwyllgor.

3 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Deborah Driffield, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant, a Candice Lloyd, Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol.

4 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

5 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2022 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

6 : SESIWN YMGYSYLLTU AELODAU ETHOLEDIG

Rhoddwyd trosolwg i'r Pwyllgor o sesiwn ymgysylltu a gynhaliwyd gyda rhai aelodau o'r Pwyllgor Cynghori ar Rianta Corfforaethol a'r grŵp Bright Sparks ym mis Medi 2022, gan gynnwys amlinelliad o weithgareddau a gynhaliwyd yn y sesiwn a'r themâu allweddol a nodwyd gan bobl ifanc â phrofiad o ofal.

Mynegodd yr aelodau eu boddhad gyda sut yr aeth y sesiwn gan wneud sylwadau ar natur agored a gonestrwydd y bobl ifanc a oedd yn bresennol.

Trafododd yr Aelodau adduned arfaethedig na ddylid trafod materion cyllid o flaen Plant a Phobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal. Pwysleisiwyd pwysigrwydd adduned o'r fath,

ynghyd â'r farn na ddylai plant a phobl ifanc deimlo eu bod yno i gynhyrchu arian i ofalwyr a sefydliadau. Dwedodd swyddogion y byddai ymarferwyr rheng flaen yn cael eu hyfforddi ar bwysigrwydd peidio â chael sgyrsiau penodol o flaen pobl ifanc.

Soniodd yr aelodau am bwysigrwydd pobl ifanc â phrofiad o ofal yn gallu rhoi wyneb i enw. Anogwyd i Gynghorwyr gael eu hatgoffa o'u cyfrifoldeb rhianta corfforaethol pe baent yn dod i gysylltiad â Phobl Ifanc â Phrofiad o Ofal. Trafodwyd pwysigrwydd codi proffil rhianta corfforaethol gyda Chynghorwyr.

Dwedodd swyddogion fod y Strategaeth Gwasanaethau Plant yn cynnig cyfle i edrych ar rai o'r materion a godwyd. Roedd gwaith yn cael ei wneud ar strategaeth cyfranogi, gan ofyn i bobl ifanc beth maen nhw ei eisiau gan wasanaethau.

Trafododd yr Aelodau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghaerdydd a gwerth yr Aelodau yn ymweld ag ysgolion i ymgysylltu â nhw. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai pwnc yr ymweliadau yn cael ei drafod yn Eitem 9.

PENDERFYNODD y Pwyllgor nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 7 : CASCADE - SIARTER ARFER DA AR GYFER CEFNOGI RHIENI I MEWN I OFAL AC I ADAEL GOFAL

Croesawodd y Cadeirydd Rachael Vaughan, Swyddog Ymgysylltu Cascade, i'r cyfarfod, a'i gwahodd i roi cyflwyniad ar ddatblygu siarter arfer da a gynlluniwyd i gryfhau cefnogaeth i rieni mewn gofal ac yn gadael gofal.

Roedd y datblygiad yn ganlyniad astudiaeth 5 mlynedd a oedd yn cynnwys cyfweliadau â rhieni a gweithwyr proffesiynol. Datgelodd dadansoddiad o'r data farn stigmateiddiedig rhieni, anfantais systemig, a mynediad difreintiedig at gymorth.

Datblygwyd y Siarter mewn ymgynghoriad â rhieni Â Phrofiad Gofal. Mae wedi cael ei rannu gydag ymarferwyr a sefydliadau ac mae wedi derbyn adborth cadarnhaol.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai Grŵp Gweithredu yn cael ei lunio gyda rhanddeiliaid allweddol i ystyried y camau nesaf wrth weithredu'r Siarter, ac y byddai angen gofyn am gymorth ariannol pe bai'r Siarter yn cael ei mabwysiadu.

PENDERFYNWYD nodi datblygiad y Siarter Arfer Da ar gyfer Cefnogi Rhieni mewn Gofal ac sy'n Gadael Gofal.

## 8 : YSGOL RITHWIR A DIWEDDARIAD PENNAETH YR YSGOL RITHWIR

Croesawodd y Cadeirydd Deborah Williams, a Gillian James, Arweinydd Cyflawni, Grwpiau Allweddol, i'r cyfarfod.

Rhoddodd Deborah Williams ddiweddariad i'r Pwyllgor ar yr Ysgol Rithwir (YR) a'r Pennaeth Rhithwir (PYR). Llwyddodd Cyngor Caerdydd i wneud cais i Lywodraeth Cymru am gyllid ar gyfer cynllun peilot a fydd yn rhedeg o fis Ebrill 2023 i fis Awst 2024, cyn i werthusiadau yn y dyfodol gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru gan arwain at sefydlu'r YR a'r PYR yng Nghaerdydd i wella ymhellach ganlyniadau addysgol yr holl blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, a’r rhai â phrofiad gofal.

Dwedodd Gillian James, Arweinydd Cyflawni, Grwpiau Allweddol, wrth y Pwyllgor nad yw cyllid Llywodraeth Cymru yn ariannu'r swydd i gyd. Mae disgrifiad swydd manwl a manyleb person yn cael ei baratoi a'r gobaith yw recriwtio a phenodi mewn pryd ar gyfer dechrau'r peilot ym mis Ebrill 2023.

Sylwodd yr Aelodau fod prosiectau'n aml yn methu oherwydd diffyg cyfathrebu rhwng gwahanol adrannau a gwasanaethau ac ymgysylltu â chyrff allanol. Cytunodd swyddogion fod cyswllt â'r bobl berthnasol yn hanfodol.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch a oedd yr YR a'r PYR ar gyfer plant oedran ysgol yn unig. Cadarnhaodd swyddogion mai dyma'r sefyllfa ar hyn o bryd ond y gellid ei ymestyn i gwmpasu oedrannau cyn-ysgol ac ôl-16 yn y dyfodol.

Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am rôl y PRh o ran y plant a osodwyd y tu allan i'r sir. Dwedodd swyddogion fod y rôl ar gyfer holl blant Caerdydd yn y sir neu y tu allan iddi. Unwaith y bydd y PYR yn y swydd, byddai angen sgyrsiau ynghylch ehangu'r tîm, o ran cymorth seicolegol er enghraifft.

Trafododd yr Aelodau yr heriau ychwanegol sy'n ymwneud â phlant y tu allan i'r sir. Dwedodd swyddogion fod lleoli plant yng Nghaerdydd yn well gan ei fod yn cynnig y cyfle gorau i ddiwallu eu hanghenion. Mae'n fwy heriol pan fydd plant yn cael eu lleoli y tu allan i'r sir, gan y gall fod yn anodd sicrhau'r ddarpariaeth ADY gywir pan fo'r plant mewn gwahanol ardaloedd ALl. Byddai'n ddymunol bod dull gweithredu cenedlaethol a'r gobaith yw y gallai'r PYR yrru sgyrsiau ymlaen yn ymwneud â hyn.

Trafododd yr Aelodau yr angen i feithrin perthynas â Gwasanaethau Plant ar bob lefel, ac i sicrhau bod gofalwyr maeth a phlant yn gwybod â phwy i gysylltu os bydd problemau. Mae angen cyfathrebu clir yn hyn o beth. Cytunodd swyddogion ei bod yn bwysig bod gan bobl ddealltwriaeth dda o rôl y PYR.

Dywedodd swyddogion y cafwyd swydd PYR rai blynyddoedd yn ôl.

Cafodd aelodau wybod bod cronfa ddata gyda gwybodaeth am faint o blant o'r tu allan i'r sir sydd yn ysgolion Caerdydd a bod y Cyngor yn ceisio eu cefnogi. Mae'r data yn nwylo'r Cydlynydd Addysg. Mae Cyngor Caerdydd ymhellach ar y blaen yn hyn o beth na rhai Awdurdodau Lleol eraill; Fodd bynnag, mae angen symud ymlaen i'r lefel nesaf. Mae yna 62 ALl y mae angen eu cysylltu i mewn.

PENDERFYNWYD nodi cynllun peilot yr Ysgol Rithwir a Phennaeth Ysgol Rithwir Caerdydd.

9 : RHAGLEN YMWELD AELODAU

Esboniodd Leigh Vella, Swyddog Rhianta Corfforaethol, fod rhaglen o ymweliadau'r Aelodau wedi'u cynnig i'w thrafod, yn y gobaith y byddai'r ymweliadau'n helpu aelodau'r Pwyllgor i gael gwybod am y gwasanaethau a'r sefydliadau sy'n cefnogi pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yng Nghaerdydd.

Awgrymodd Gillian James, Arweinydd Cyflawni, Grwpiau Allweddol, y byddai'n fuddiol i Aelodau gael amserlen o ymweliadau ag ysgolion gwahanol er mwyn clywed

safbwyntiau gwahanol a siarad ag ystod eang a nifer o bobl ifanc. Roedd Arweinydd Llesiant newydd yn y Gwasanaethau Plant ac roedd yn briodol bod y gwaith yn cael ei wneud o dan yr ymbarél hwnnw.

Mynegodd yr aelodau y farn, lle roedd cyfyngiadau ar nifer yr Aelodau a allai fod yn bresennol, ei bod yn bwysig nad yw'r Aelodau'n derbyn y cyfle i ymweld ac yna methu â mynychu. Dylai fod rhestr wrth gefn ar gyfer Aelodau yn mynychu. Dwedodd swyddogion y gellid dilyn hyn, a bod disgwyl i Aelodau fyddai'n bresennol adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch pam fod cymaint o blant yn derbyn gofal yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant. Dwedodd swyddogion fod nifer fawr o ofalwyr maeth yn ardal Tredelerch, a bod llawer o blant sy'n derbyn gofal yn mynychu Ysgol Gynradd Tredelerch ac Ysgol Uwchradd Teilo Sant. Mae nifer cynyddol bellach yn mynychu Ysgol Uwchradd y Dwyrain. Mae gan Ysgol Uwchradd Teilo Sant hanes da wrth ddelio â phlant sy'n derbyn gofal.

Roedd yr Aelodau o'r farn ei bod yn ddymunol cael dyddiadau ac amseroedd ymweliadau ymlaen llaw fel bod Aelodau yn gallu ymrwymo i ymweliadau. Awgrymwyd anfon yr amserlen at Aelodau. Awgrymodd yr Aelodau ei bod yn ddymunol i bob Aelod fynychu o leiaf un ymweliad. Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd adborth i'r Pwyllgor ar ôl ymweliadau.

Mynegwyd y farn y byddai'n werthfawr ymweld â phlant sy'n derbyn gofal sydd yn y ddalfa.

Mynegodd yr aelodau y gobaith y byddai Aelodau ar y rhestr wrth gefn yn derbyn o leiaf 1 diwrnod o rybudd pe byddent yn cael eu gofyn i fod yn bresennol. Pwysleisiwyd yr angen i Aelodau hysbysu Swyddogion cyn gynted â phosibl nad oeddent yn gallu bod yn bresennol. Mynegwyd y byddai Swyddog yn bresennol ym mhob ymweliad.

Awgrymwyd y byddai digwyddiadau maethu yn rhoi cyfle da i gwrdd â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, ac mae nifer fawr o blant ceiswyr lloches ar eu pen eu hunain ar hyn o bryd. Trafododd yr Aelodau bwysigrwydd cwrdd â Gweithwyr Cymdeithasol rheng flaen er mwyn cael cipolwg ar sut y gwneir y gwaith. Nodwyd bod Gweithwyr Cymdeithasol yn aml yn teimlo'n ynysig yn eu gwaith.

PENDERFYNODD y Pwyllgor cytuno ar raglen Ymweld i Aelodau.

10 : MONITRO PERFFORMIAD

Cyflwynodd y Swyddog Rhianta Corfforaethol Leigh Vella, a Matthew Osbourne, RhG y Ganolfan Diogelu ac Adolygu, yr adroddiad sy'n gofyn am gymeradwyaeth gan y Pwyllgor ar y cynnig ar gyfer dangosfwrdd dangosydd perfformiad allweddol drafft sy'n dangos ystod o ddata allweddol o adrannau mewnol ac asiantaethau allanol sy'n cael effaith ar fywydau Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Rhai sy'n Gadael Gofal, ac Astudiaethau achos i fod yn eitem agenda sefydlog mewn cyfarfodydd pwyllgor yn y dyfodol.

Byddai'r dangosfwrdd yn dod â data allweddol at ei gilydd ynghylch Plant sy'n Derbyn Gofal a byddai'n cwmpasu gwahanol feysydd fel Gwasanaethau Plant a phlant ceiswyr lloches ar eu pen eu hunain, nifer y symudiadau lleoliad, gwahanol fathau o leoliadau a'r newid mewn mathau o leoliadau dros amser, gwybodaeth am gyflawniadau allweddol a pherfformiad addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal.

Trafododd yr Aelodau yr amlder priodol ar gyfer cyflwyno data dangosfwrdd i'r Pwyllgor, ac a fyddai'n well gan yr Aelodau fwy o astudiaethau achos yn hytrach na data. Awgrymwyd nad oes angen cyflwyno data i bob cyfarfod ac mai'r cynnydd dros amser oedd y wybodaeth bwysicaf. Mynegodd yr aelodau ffafriaeth o ran cyflwyno data yn weledol a chyfuniad o ddata ac astudiaethau achos. Soniwyd am bwysigrwydd astudiaethau achos fel llais i Blant sy'n Derbyn Gofal.

Nododd yr Aelodau amrywiaeth y Plant sy'n Derbyn Gofal ac roeddent yn dymuno gwybod a oedd y Cyngor yn gallu darparu ar gyfer eu hanghenion dietegol a diwylliannol amrywiol. Dwedodd swyddogion fod y Cyngor yn ceisio paru'r ddarpariaeth gofal gydag angen. Ar hyn o bryd mae diffyg amrywiaeth ymhlith darparwyr gofal ac mae cynlluniau i dargedu amrywiaeth gynyddol mewn darpariaeth gofal.

Mynegodd yr Aelodau farn ei bod yn bwysig iddynt dderbyn astudiaethau achos o unrhyw brofiadau negyddol i dynnu sylw at unrhyw anawsterau a phroblemau. Dwedodd swyddogion y byddai cyngor cyfreithiol yn cael ei geisio ynghylch cyflwyno unrhyw astudiaethau achos i'r Pwyllgor i sicrhau y byddai adnabod unrhyw berson ifanc dan sylw yn parhau'n gyfrinachol.

Mynegodd yr aelodau bryder am y diffyg rhannu data gan ei fod yn rhwystro'r gallu i olrhain profiadau gwahanol grwpiau o blant dros amser. Dwedodd swyddogion fod ysgolion yn casglu data mewn gwahanol ffyrdd. Dwedodd swyddogion ei bod yn anodd ar hyn o bryd adrodd ar ganlyniadau addysgol, yn rhannol oherwydd y cwricwlwm newydd. Tasg y PYR fyddai ymgyfarwyddo â'r cwricwlwm newydd. Ar hyn o bryd mae'n anodd casglu gwybodaeth yn gyfannol, ond gobeithio bydd hynny'n gwella dros amser.

PENDERFYNWYD argymell cyflwyno data bob dwy flynedd.

11 : Y FLAENRAGLEN WAITH

The Chair invited Leigh Vella, Corporate Parenting Officer, to present the work programme and invited Members confirm whether there were any specific issues they would like covered at the next meeting of the Committee in March.

Members noted that there were a large number of acronyms in reports and requested that explanations be provided.

12 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

13 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd y cyfarfod nesaf am 2pm ar 27 Mawrth 2023.

The meeting terminated at 3.55 pm